# DEDDF TRETH TRAFODIADAU TIR A GWRTHWEITHIO OSGOI TRETHI DATGANOLEDIG (CYMRU) 2017

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

**Rhan 8 – Dehongli a Darpariaethau Terfynol**

***Atodlen 5 – Trafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch***

**Rhan 5 - Darpariaethau atodol**

**Prif fuddiannau mewn anheddau a gyd-etifeddir**

222. Mae paragraff 34 yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â thrafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch pan fo prif fuddiannau mewn anheddau yn cael eu cyd-etifeddu. Mae'r darpariaethau hyn yn nodi, pan fo prynwr yn etifeddu cyfran o 50% neu lai mewn eiddo a etifeddwyd o fewn 3 blynedd i'r adeg y prynodd y prynwr yr eiddo preswyl, nad yw'r eiddo a etifeddwyd yn cael ei ystyried at ddibenion cadarnhau a yw rheolau trafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch y Ddeddf hon yn gymwys. Os yw hawl lesiannol y prynwr i'r buddiant yn yr eiddo a etifeddwyd yn fwy na 50% ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod hwnnw o 3 blynedd, fodd bynnag, caiff y prif fuddiant yn yr eiddo a etifeddwyd ei ystyried at ddibenion pryniant y prynwr o'r eiddo preswyl.

223. Mae paragraff 34(5) yn darparu na ddylid cyfuno buddiannau priodau a phartneriaid sifil nad ydynt yn cyd-fyw mwyach, fel y'i diffinnir gan baragraff 25(3), at ddibenion cadarnhau a yw'r trothwy o £40,000 wedi ei gyrraedd ar gyfer y rheolau trafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch.

224. Mae paragraff 34(7) yn gwneud darpariaeth bellach mewn cysylltiad â phrif fuddiant a etifeddir o ganlyniad i amrywio ewyllys. Mae'r is-baragraff hwn yn egluro, pan fo prif fuddiant mewn annedd yn cael ei gaffael o ganlyniad i amrywio ewyllys, ei fod i'w drin fel eiddo a etifeddwyd at ddibenion pennu a yw prynwr yn dal buddiant mewn eiddo arall. Pan nad yw'r buddiant a gaffaelir yn fwy na 50% nid yw'r prynwr i'w drin fel ei fod yn berchen ar brif fuddiant yn yr eiddo hwnnw am 3 blynedd o ddyddiad amrywio'r ewyllys, at ddibenion yr Atodlen hon.